# COFNODION

**Dyddiad** 6 Mawrth 03
**Amser** 9.00am – 11.55am
**Lleoliad** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

## Yn bresennol

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

## Swyddogion

| | |
|---|---|
| John Clarke | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Mike Phelps | EcAD |
| Emyr Roberts | EPD |
| Mike Clancy | ICM |
| Julie Hanley | ICM3 |

## Hefyd yn bresennol

| | |
|---|---|
| Russell Lawson | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Helen Conway | Siambr Fasnach Caerdydd |

## Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

**EDC 04-03(p1)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda chrynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf. Amgaeir copi ohono fel atodiad i'w adroddiad. Roedd hyn yn cynnwys datganiad ar gynllun cofrestru statudol Bwrdd Croeso Cymru a hefyd gyfeiriad at ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol a gyhoeddwyd y diwrnod hwnnw, yr oedd y Gweinidog yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor yn gallu eu trafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.
2. Anogodd yr Aelodau y Gweinidog i bwyso am amser deddfwriaethol yn y flwyddyn seneddol nesaf ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol mewn cysylltiad â chynllun cofrestru statudol Bwrdd Croeso Cymru. Roeddent yn ofni bod hyn wedi bod yn destun trafod bellach ers cryn amser, ac roeddent yn teimlo ei bod yn orfodol ei roi ar waith ar gyfer cynllunio strategol Bwrdd Croeso Cymru yn y dyfodol. Dywedodd y Gweinidog y byddai hyn yn cael ei gynnwys yng nghynigion y Cabinet ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol y dyfodol yr oedd disgwyl i'r Cynulliad ei ystyried ar 12 Mawrth. Cydnabu hefyd fod gan rai Awdurdodau Lleol bryderon ynghylch gweithrediad y cynllun a'i fod yn bwysig i'r holl safbwyntiau gael eu hystyried. Gofynnodd i'r Gweithgor ystyried hyn yn benodol ac edrych ar y dulliau cyflawni amgen ar gyfer y cynllun.
3. Roedd yr Aelodau yn pryderu na fyddai amserlen yr ymgynghoriad ar ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol yn caniatáu digon o amser i'r sector preifat gyflwyno eu safbwyntiau i Lywodraeth Cynulliad Cymru oherwydd yr etholiadau. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn trafod dyfodol y cronfeydd strwythurol gyda charfanau perthnasol ers cryn amser.
4. Holodd Aelodau ynghylch dilysrwydd y data yn Atodiad E o adroddiad y Gweinidog a oedd yn cynnwys 800 o swyddi a grewyd yn ITV Digital, Pont Cleddau, a oedd wedi cael eu colli ers hynny. Gan fod y rhain yn 10% o gyfanswm y swyddi a grewyd hyd yn hyn fel rhan o raglen Amcan 1 teimlwyd y dylai'r adroddiad fod wedi cyfeirio at hyn mewn rhyw fodd. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cynnwys troednodiadau mewn adroddiadau yn y dyfodol lle byddai amgylchiadau eithriadol megis y swyddi yn ITV Digital yn bodoli.
5. Cododd yr Aelodau bryderon hefyd ynghylch cyfrif swyddi ddwywaith gan roi'r enghraifft ganlynol. Petai gweithwyr ITV Digital yn cael eu cyflogi gan gwmni

newydd a oedd hefyd yn derbyn arian Amcan 1, yna byddai'r swyddi yn cael eu cyfrif am yr eilwaith, gan roi camargraff. Holodd yr Aelodau hefyd am ddibynadwyedd ffigurau mewn perthynas â rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn gyffredinol ac roeddent yn tybio a oedd swyddi hefyd yn cael eu cyfrif ddwywaith lle bo mwy nag un pecyn Cronfeydd Strwythurol ynghlwm wrth eu creu.

6. Am fod y swyddi yn ITV Digital yn ganlyniad cyfreithlon i'r rhaglen, dywedodd John Clarke fod rhaid iddynt gael eu cofnodi. Ychwanegodd fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau nad oedd swyddi'n cael eu cyfrif ddwywaith o fewn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ond eu bod yn derbyn bod problemau'n gallu digwydd pan fo prosiectau'n cael eu cynnal gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Roedd dilysrwydd y data yn faes yr eid i'r afael ag ef yn y gwerthusiad canol-tymor. Teimlai'r Aelodau fod y gwerthusiad hefyd yn hanfodol i nodi pam y mae rhai prosiectau yn llwyddiannus a pham y mae rhai Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad wedi cael problemau i bob golwg gyda'u cyflwyno.
7. Mynegodd rhai Aelodau bryder am ganlyniadau Amcan 1 sydd yn Atodiad D i adroddiad y Gweinidog. Dywedodd John Clarke, er bod y rhaglen ar ei hanner yn nhermau yr amser sydd wedi mynd heibio, o ran gwariant, dim ond 15-17% oedd wedi cael ei dalu ac nid oedd hyn yn sail ystadegol digon mawr i dynnu casgliadau ohoni.
8. Croesawodd un Aelod y ffaith bod y Gweinidog wedi rhoi sêl ei fendith yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod blaenorol i argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Ddatblygu Cynaliadwy. Ar fater cysylltiedig, fe wnaeth un Aelod sylw y byddai angen pibell ar draws y DU i Fôr y Gogledd ar gyfer enciliad y CO2 yn y cyfleuster glo glân arfaethedig yng Nghwm Nedd ac roedd yn tybio a fyddai hyn yn ymarferol yn ariannol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod pan fyddai'r cwmni yn gwneud cais am drwydded gan yr Adran Masnach a Diwydiant.
9. Ynghylch TAN8, dywedodd y Gweindiog ei fod yn deall pryderon yr Aelodau am ei ryddhau, ond ei bod yn bwysig ei gael yn gywir. Roedd yn deall bod pob carfan berthnasol yn dechrau dangos consensws ac yn deall y byddai'n cael ei gyhoeddi'n fuan.
10. Nododd y Gweindiog a'r Cadeirydd yn ffurfiol eu diolch i'r Clerc a'i dîm am eu brwdfrydedd a'u gwaith caled wrth gynhyrchu'r adroddiadau ar Ynni Adnewyddadwy.

**Eitem 3: Beichiau Rheoliadol ar Fusnesau**

**EDC 04-03(p2)**
**EDC 04-03(p2a)**
**EDC 04-03(p2)**

**EDC 04-03(p3)**

1. Cyflwynodd Russell Lawson ei bapur a dywedodd fod angen gweithredu mewn amgylchedd sy'n 'gyfeillgar i fusnesau' mewn marchnad fusnes sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol a byd-eang. Roedd yr un rheoliadau yn gymwys i gwmnïau bach ag i gwmnïau mawr ond nid oedd ganddynt yr un adnoddau i'w gweithredu.
2. Dywedodd Helen Conway nad oedd cyflogwyr yn gwrthwynebu mesurau a oedd yn diogelu gweithwyr ond eu bod yn pryderu am y beichiau biwrocrataidd oedd ynghlwm wrth fesurau o'r fath. Roedd angen cymryd camau ymarferol er mwyn cyfyngu ar y baich gan gynnwys adolygiad trylwyr o'r effeithiau y mae unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn ei chael ar fusnesau bach cyn y byddai deddfwriaeth o'r fath yn cael ei chyflwyno.
3. Teimlai'r FSB a'r Siambr Fasnach nad oedd y gwasanaethau busnesau bach, sy'n cael eu hariannu gan y llywdoraeth, yn effeithiol iawn wrth leihau baich rheoliadol ac y gallai mwy gael ei wneud i hyrwyddo hyfforddiant. Nid oedd Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn cael ei weld yn rhywle yr oedd busnesau bach yn teimlo'n gyfforddus ynghylch troi ato am gyngor er i Helen Conway wedi ddweud bod y WDA yn gweithio'n galed i newid y ddelwedd hon a'u bod yn gwerthuso'u cynlluniau'n rheolaidd, gan gael gwared ar y rhai nad ydynt yn gweithio.
4. Roedd gwahaniaeth rhwng y cyngor a'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan yr Awdurdodau Lleol gyda rhai yn peidio â chysylltu â'r gymuned fusnes o gwbl. Pan oedd cyswllt i'w gael, roedd bob amser yn anodd iddynt beidio â chael eu gweld fel rhan o'r fframwaith rheoliadol er bod llawer wedi ceisio'n galed i newid y ddelwedd hon.
5. Tynnodd Helen Conway sylw at wefan yr Adran Masnach a Diwydiant fel enghraifft dda o sut y gallai llywodraeth ddarparu ffynhonnell gyngor hawdd ei defnyddio, er bod y safle hwn yn delio â deddfwriaeth cyflogaeth yn bennaf.
6. Dywedodd Russell Lawson y dylid cydnabod bod busnesau bach yn gweithredu mewn modd hollol wahanol i gwmnïau mawr. Maent yn dibynnu'n fawr ar y ffaith bod eu gweithwyr yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Yn yr Unol Daleithiau roedd busnesau bach yn cael eu heithrio rhag nifer o reoliadau, yn dibynnu ar faint o bobl yr oeddynt yn eu cyflogi a theimlai y gallai'r model hwn gael ei fabwysiadu yn y DU. Dywedodd Helen Conway, ar y llaw arall, fod nifer o fusnesau bach am gydymffurfio, yn enwedig â deddfwriaeth cyflogaeth ond nad oedd ganddynt yr adnoddau yn aml iawn. Gallai darn-ddirymiad gael ei ddefnyddio yn fwy aml er mwyn galluogi busnesau bach i dyfu a chydymffurfio rywbryd yn y dyfodol.
7. Roedd yr Aelodau yn tybio pa reoliadau penodol y byddai'r FSB a'r Siambr Fasnach yn dymuno eu diddymu er mwyn lleihau'r baich ar fusnesau bach. Dywedodd Russell Lawson ei bod yn anodd nodi'r rheoliadau penodol y byddent yn dymuno iddynt gael eu diddymu; y baich biwrocrataidd sydd ynghlwm wrth ddangos eu bod yn cydymffurfio yw'r broblem. Dywedodd Helen Conway ei bod yn bwysig cynnal asesiadau effaith manwl ar yr holl ddeddfwriaeth arfaethedig

cyn iddi gael ei phasio. Ychwanegodd fod angen gwella mynediad at gyngor a chanllawiau a bod angen hefyd wella ymwybyddiaeth busnesau o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio â rheoliadau newydd. Dywedodd Russell Lawson eu bod wedi arddel cymal y machlud mewn deddfwriaeth ond os na fyddai'r ddeddfwriaeth mewn grym yna ni fyddai'n creu unrhyw faich.

8. Holodd yr Aelodau a oedd ariannu mesurau ymarferol er mwyn helpu busnesau bach i ddelio â rheoliadau megis cyfleuster ar-lein o fewn cylch gorchwyl Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y pwerau ar gyfer y rhan fwyaf o'r ddededfwriaeth sy'n effeithio ar y maes hwn wedi'u dirprwyo ar wahân i rai rheoliadau Iechyd a Diogelwch.
9. Wrth gloi’r drafodaeth dywedodd y Gweinidog fod llawer o’r rheoliadau a grybwyllwyd yn rhai ar gyfer y DU gyfan a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU yn hyn o beth drwy, ymhlith pethau eraill, aelodaeth o Gyngor Busnesau Bach y DU. Cyfeiriodd hefyd at dudalen newydd ar wefan Busnes Ar-lein a fyddai’n casglu sylwadau oddi wrth fusnesau ar faterion rheoleiddio a oedd yn peri problem. Gofynnodd y Cadeirydd ei fod yn gadael i’r Pwyllgor weld canlyniadau hynny. **[Camau Gweithredu: y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd].**
10. Dywedodd y Gweinidog y byddai o gymorth pe bai’r FSB a’r Siambr Fasnach yn dweud wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru pa beth y gallent ei wneud yn ymarferol i helpu’r sefyllfa. Er y gallai’r Llywodraeth hwyluso eu gweithgareddau drwy Awdurdod Datblygu Cymru ac asiantaethau eraill ychwanegodd ei bod yn bwysig peidio â dyblygu’r hyn a oedd eisoes yn digwydd yn y sector preifat.

**Eitem 4: Mesurau Amgen o Berfformiad Economaidd**

**EDC 04-03(p4)**

1. Cyflwynodd Mike Phelps y papur, gan amlinellu’r gwahanol ymagweddau at lunio mesurau o ddatblygu economaidd ac at ba wahanol ddibenion y gellid defnyddio pob un.
2. Croesawodd yr Aelodau’r papur, a oedd yn eu barn hwy wedi cyflwyno trafodaeth glir iawn o’r materion. Cydnabuwyd nad oedd unrhyw un mesur yn bodoli a oedd yn fwy addas na’i gilydd ym mhob sefyllfa. Yr oedd gan bob mesur ei gryfderau a’i wendidau. Tanlinellodd yr Aelodau bwysigrwydd cadw GDP gan fod rhywfaint o ddealltwriaeth gyffredinol o’r hyn yr oedd yn ei olygu a chan ei fod ar gael ar yr un sail ar gyfer llawer o wledydd eraill.
3. Nododd yr Aelodau fod ymrwymiad Cymru i Ddatblygu Cynaliadwy, sy’n rhan o Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn destun cenfigen llawer o wledydd eraill. Ym marn partneriaid yn Ewrop yr oedd Cymru ar flaen y gad ym maes datblygu cynaliadwy ac wrth i’r agenda hon symud ymlaen ar y lefel Ewropeaidd, byddai disgwyl i Gymru chwarae rôl o bwys. Yr oedd yn bwysig felly parhau i ddatblygu mesurau, ochr yn ochr â GDP, sy’n adlewyrchu’r ystyriaethau ehangach hyn.

4. Siaradodd yr Aelodau am werth mesur a fyddai'n ymgorffori llifoedd o gyfalaf a ffurfio cyfalaf ac a allai ddarparu mesurau o berfformiad economaidd ar y lefel leol. Yr oedd yn broblem fawr ei bod yn anodd asesu llifoedd o arian rhwng Cymru a Lloegr, er bod yna rai mesurau 'answyddogol' o'r rhain ar sail data a allosodwyd o arolygon bach. Er hynny, yr oedd yn anodd gwneud y math hwn o ddadansoddiad heb fframwaith y DU ar gyfer casglu'r data hwn. Nodwyd bod datblygu cyfrifiaduron yn ei gwneud yn haws o bosibl casglu'r math o ddata y mae ei angen at y diben hwn, ond bod nifer o anawsterau ymarferol ynghlwm wrthynt er hynny. Er bod gan wledydd eraill ddangosyddion sy'n cwmpasu ystod ehangach o faterion na GDP, nododd Mike Phelps nad oedd gan yr un ohonynt ddim byd mor soffistigedig â'r 'ôl troed ecolegol' sydd ar gael yng Nghymru.
5. Mynegodd yr Aelodau amheuon ynghylch mesur sy'n ymgorffori barn pobl (o arolygon) am lefel eu bodlonrwydd. Yr oedd hi'n n anodd ganddynt gredu mai ystadegyn cadarn oedd hwn ac roeddent o'r farn y gallai fod yn agored i newidiadau o ddydd i ddydd ac y gallai ffactorau megis y tywydd ddylanwadu arno.
6. Mike Phelps mai ei farn bersonol ef, fel economegydd, yw mai'r ffordd 'amgen' fwyaf defnyddiol o asesu mesurau ehangach o berfformiad oedd defnyddio Is-gyfrifon Amgylcheddol.
7. Gofynnod un o'r Aelodau a fyddai modd paratoi papur yn dangos ffigurau ar gyfer rhai gwledydd eraill ar gyfer yr ISEW. Dywedodd Mike Phelps ei bod yn weddol syml gwneud hyn ar gyfer Cymru a'r DU.
   **[Camau Gweithredu: Mike Phelps]**
8. Nododd y Gweinidog fod gan y mesurau amgen i gyd eu diffygion a chytunodd ar bwysigrwydd cadw GDP. Yr oedd yn bwysig datblygu ffyrdd o sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan o brif ffrwd busnes y Cynulliad. Dywedodd fod swyddogion wedi defnyddio'r pecyn cynaliadwyedd i roi prawf ar bolisïau yn hyn o beth a thanlinellodd bwysigrwydd hybu busnesau sy'n gadarn ac yn gyfrifol o safbwynt yr amgylchedd.
9. Wrth grynhoi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi barn y Pwyllgor ar y mesurau amgen. Y prif bwyntiau y byddai'n eu gwneud oedd:

- y dylid gweld mai rhywbeth ychwanegol at GDP fyddai unrhyw fesur amgen, ac nid rhywbeth a gâi ei ddefnyddio yn ei le;
- y dylid gweld GDP fel y mesur drosfwaol, yn enwedig ar gyfer asesu polisïau presennol;
- bod angen gwaith i ddatblygu ymhellach cynnwys datblygu cynaliadwy a'r dimensiwn cymdeithasol yn y dangosyddion hyn, er na fyddai hyn o bosibl ar gyfer EDC yn unig;
- y dylid gwneud gwaith i ymgorffori effeithiau symud arian ar draws ffiniau yn y mesurau hyn.

**Eitem 5: Adroddiad ar Fand Eang**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad drafft y Pwyllgor a oedd wedi'i baratoi ar gyfer y cyfarfod. Cytunodd yr Aelodau y dylai Adrannau 1 i 5 sefyll fel yr oeddent wedi'u drafftio.
2. Mewn perthynas ag Adran 6 codwyd nifer o bwyntiau:

- Dylai'r papur gyfeirio at ddefnyddio cronfeydd yng Nghaerffili i ddatblygu 5 cyfnewidfa ADSL. Dangosodd hyn y byddai modd darparu mynediad i ADSL o fewn pum mlynedd ar gyfer 80% o'r boblogaeth am £40m. Dywedodd y Gweinidog fod bwriad cynnal cyfarfod â Chaerffili cyn hir i drafod y model busnes er mwyn dyblygu'r model hwn mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

- Yr oedd angen eglurhad pellach yn y papur o'r materion sy'n ymwneud â chystadlu am amleddau ar gyfer Band Eang diwifr.

- Er nad oedd y Pwyllgor am gymeradwyo rôl unrhyw weithredwr penodol (BT), dylai'r papur gydnabod bodolaeth y seilwaith presennol.

- Yr oedd yn bwysig cydnabod bod angen i awdurdodau lleol yng Nghymru gymryd yr awenau yn hyn o beth.

- Dylid cyfeirio at arbrawf a wnaed yng Ngogledd Cymru gan BT a oedd yn golygu gosod mân DSLAMS mewn cyfnewidfeydd. Er na allai mân DSLAMS gefnogi ond nifer bach o ddefnyddwyr, eu mantais oedd ei bod yn rhatach eu gosod na DSL, gan alluogi cyfnewid. Er y gallai'r rhain fod yn werthfawr, yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd â nifer cyfyngedig o ddefnyddwyr, cytunodd y Gweinidog nad oeddent ar gael eto fel cynnyrch oddi wrth BT.

- Dylai'r adran sy'n ymwneud ag ysgogi'r cyflenwad gyfeirio at rai o'r mentrau eraill y mae Band Eang Cymru yn mynd ar eu trywydd megis Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes a DAWN2. Cytunodd Nick Batey i ddarparu cyfraniad at y rhan hon o'r adroddiad.

- Mae'r papur yn gydnabod yr adroddiad diweddar gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar TGCh yng nghefn gwlad Cymru a'r rhwystredigaeth a deimlir yn yr ardaloedd hyn a phwysigrwydd darparu mynediad gwell a hynny ar frys.

- Dylid dileu ail frawddeg y paragraff olaf ond un yn Adran 6 gan ei bod i bob golwg yn gwrth-ddweud rhannau eraill o'r adroddiad.

- Dylai'r adran ar ariannu gydnabod bod darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud gan Gynllun Band Eang Cymru.

- Dylai cyfeiriadau at y ‘croeso cynnes’ a roddwyd gan y Pwyllgor i strategaeth y Gweinidog hepgor y gair ‘cynnes’.

- Dylai’r Adroddiad gydnabod yr angen i’r fenter hon gael ei gyrru ymlaen yn gyflym a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi’n mynd ar drywydd hyn.

3. Wrth gloi, dywedodd y Cadeirydd y câi’r Adroddiad ei ddiwygio a’i gylchredeg i’r Aelodau. Yr oedd yn gobeithio rhoi trefn derfynol arno y tu allan i’r Pwyllgor.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 03-03 Cofnodion (Drafft)**
**EDC 04-03 Camau i’w Cymryd**

1. Cytunwyd bod Cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir o’r cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**